# CYFARFOD PENDERFYNIADAU ARWEINYDD Y CYNGOR

## DYDD GWENER, 16 MEHEFIN 2017

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd:** E. Dole (Aelod o'r Bwrdd Gweithredol).

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**
S. Walters, Rheolwr Datblygu Economaidd
J Reynolds, Swyddog Datblygu Economaidd
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
**Ystafell Arweinydd, Neuadd y Sir, Caerfyrddin – 2.00pm-2.30 pm**

**1. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.**
Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

**2. ADRODDIADAU NAD YDYNT I'W CYHOEDDI**
**PENDERFYNWYD yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, na fyddai'r eitemau canlynol yn cael eu cyhoeddi, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

**3. CRONFA MENTRAU GWLEDIG SIR GAERFYRDDIN- MORGAN MARINE LTD**
**Ar ôl cynnal prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 2 beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad am ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig ynghylch materion ariannol neu faterion busnes unrhyw unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).**
**Yr oedd y prawf budd y cyhoedd o ran y mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth fanwl am faterion a dyheadau busnes ac ariannol yr ymgeiswyr. Yn yr achos hwn, yr oedd y budd i'r cyhoedd o ran cadw cyfrinachedd yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran tryloywder ac atebolrwydd, gan y byddai datgelu'r wybodaeth yn debygol o niweidio'r ymgeiswyr ar hyn o bryd.**
Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried cais gan Morgan Marine Ltd am grant tuag at helaethu swyddfeydd a gwaith adnewyddu yng Nghil-yr-Ychen, Llandybie, a fyddai'n creu 8 swydd amser llawn a 102metr sgwâr ychwanegol o le cyflogaeth.
**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais canlynol am gymorth o'r Gronfa Mentrau Gwledig Sir Gaerfyrddin yn amodol ar y telerau a'r amodau arferol ac ar y rhai a bennwyd yn yr adroddiad:-**

| Ymgeisydd | Dyfarniad |
|---|---|
| Morgan Marine Ltd. | £91,476.11 |

**AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL** **DYDDIAD**